Strategaeth Llyfrgelloedd Cyhoeddus

2025-2030

monmouthshire
sir fynwy

monmouthshire
sir fynwy

“Gall llyfrau fod yn beryglus. Dylai'r rhai gorau gael eu labelu â 'Gallai hyn newid eich bywyd.’ ”

— **Helen Exley**

monmouthshire
sir fynwy

Rhagair yr Aelod Cabinet

Wrth i ni edrych ymlaen at y pum mlynedd nesaf, mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyhoeddus Sir Fynwy wedi ymrwymo i feithrin cymuned fywiog, gynhwysol a blaengar. Ein huchelgais yw creu gofod lle gall pawb, waeth beth fo'u hoedran neu eu cefndir, gael mynediad at yr adnoddau a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i ffynnu. Credwn fod llyfrgelloedd yn fwy na dim ond adeiladau sy'n llawn llyfrau; maent yn fannau deinamig o fewn ein Hybiau Cymunedol sy'n lleoedd dysgu, creadigrwydd a chysylltiad cymunedol.
Mae ein hamcanion strategol yn adlewyrchu ein hymroddiad i hyrwyddo llythrennedd, cefnogi lles a chroesawu arloesedd digidol. Drwy adeiladu partneriaethau cryf gydag ysgolion lleol, gwella ein cynigion iaith Gymraeg a mynd i'r afael ag ynysu cymdeithasol, ein nod yw gwneud effaith barhaol ar fywydau ein trigolion.

Wrth i ni gychwyn ar y daith hon, rydym wedi ein hysbrydoli gan eiriau'r awdur a llyfrgellydd Americanaidd, Carla Hayden.:

" Mae llyfrgelloedd yn gonglfaen democratiaeth—lle mae gwybodaeth yn rhad ac am ddim ac ar gael yn gyfartal i bawb. Mae pobl yn tueddu i gymryd hynny'n ganiataol, ac nid ydynt yn deall beth sydd yn y fantol."

Gyda'n gilydd, byddwn yn sicrhau bod llyfrgelloedd Sir Fynwy yn parhau i fod yn lleoedd sy’n cynnig cyfleoedd, yn ymrymuso a’n lle cymunedol i bawb.

Cynghorydd Sir Angela Sandles
Aelod Cabinet dros Gydraddoldeb ac Ymgysylltu

monmouthshire
sir fynwy

Cyflwyno Llyfrgelloedd Cyngor Sir Fynwy ar gyfer 2025-2030

Mae Cyngor Sir Fynwy yn falch o gyflwyno ei Strategaeth Llyfrgelloedd 2025–2030 — gweledigaeth feiddgar a blaengar i ailddychmygu gwasanaethau llyfrgell fel canolfannau cymunedol cynhwysol a bywiog. Wedi'i seilio ar uchelgeisiau Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol Sir Fynwy (2022-28), mae'r strategaeth hon yn anelu at ddyfnhau ymgysylltiad cymunedol, hyrwyddo dysgu gydol oes, a hyrwyddo cynhwysiant digidol a chymdeithasol. Mae'n adlewyrchu ymrwymiad cryf i flaenoriaethau cenedlaethol a fframweithiau deddfwriaethol, gan gynnwys Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, y Strategaeth Ddigidol i Gymru, a chynlluniau gweithredu sy'n cefnogi gwrth-hilioldeb, cynhwysiant LGBTQ+, cymunedau sy'n gyfeillgar i oedran, a lleihau unigrwydd ac ynysu cymdeithasol. Trwy'r dull integredig hwn, bydd llyfrgelloedd Sir Fynwy yn dod yn fannau deinamig a hygyrch sy'n adlewyrchu anghenion a dyheadau amrywiol yr holl drigolion.

Ein Gweledigaeth

Creu gwasanaethau llyfrgell cynhwysol, arloesol a hygyrch sy'n grymuso trigolion, yn gwella lles cymunedol ac yn hyrwyddo dysgu gydol oes.

Strategaeth Eim Hymrwymiad

Wedi'i seilio ar Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964, mae ein strategaeth yn ymrwymo i ddarparu "gwasanaeth llyfrgell cynhwysfawr ac effeithlon i bawb." Wrth wraidd ein cenhadaeth mae hyrwyddo 'Taith Ddarllen' i bob dinesydd yn Sir Fynwy. Rydym yn cydnabod bod darllen yn esblygu drwy gydol oes, ond yn parhau i fod yn weithgaredd trawsnewidiol a hanfodol. Nid dim ond sgil yw llythrennedd; mae'n borth i gyflawniadau academaidd ac mae'n dylanwadu'n sylweddol ar ganlyniadau fel potensial ennill, iechyd a lles. Mae lefelau uchel o lythrennedd yn hanfodol ar gyfer bywydau hapus, iach a boddhaus.

Ein Tirwedd Bresennol

- 6 hyb llyfrgell ledled y Sir:
- Y Fenni, Cil-y-coed, Cas-gwent, Gilwern, Trefynwy a Brynbuga
- 350,000+ o ymweliadau bob blwyddyn (2024-25)
- 33,000+ aelodau llyfrgell
- 29,000+ benthycwyr cyson

monmouthshire
sir fynwy

Dadansoddiad CGCD

Cryfderau
- Ymddiriedaeth gymunedol
- Staff medrus
- Hybiau Cymunedol Integredig

Gwendidau
- Seilwaith digidol cyfyngedig
- Allgymorth anghyson

Cyfleoedd
- Ehangu digidol
- Partneriaethau gydag ysgolion
- Rhaglenni cynhwysol
- Cyfleoedd i ehangu partneriaethau a moderneiddio gwasanaethau

Bygythiadau
- Cyfyngiadau cyllidebol
- Disgwyliadau defnyddwyr yn newid

Bydd ein Strategaeth wedi'i Seilio ar Ddyheadau ac Uchelgais Sy'n Feiddgar

Adeiladu Cymdeithas Lythrennog a Hyderus

Mae llyfrgelloedd yn chwarae rhan ganolog wrth adeiladu cymdeithas lythrennog a hyderus drwy ddatblygu, cyflwyno a hyrwyddo gweithgareddau darllen creadigol. Mae darllen er mwyn pleser yn arbennig o bwysig, gan ei fod yn cyfrannu at unigolion iachach, hapusach a mwy hyderus. Mae ein llyfrgelloedd yn cefnogi hyn drwy gynnal rhaglenni darllen, cynnal clybiau llyfrau, a darparu cyngor ac arweiniad i helpu pobl i ehangu a datblygu eu dewisiadau darllen.

Mentrau Allweddol

Mae ein strategaeth yn cynnwys mentrau fel Bookstart, partneriaeth â Booktrust ac Ymwelwyr Iechyd, gan sicrhau bod pob baban a phlentyn bach yn Sir Fynwy yn derbyn dau becyn am ddim gyda llyfr a gwybodaeth am rannu llyfrau gyda'u plentyn. Mae Her Ddarllen yr Haf yn gonglfaen arall, gan wella hyder ac annibyniaeth darllen yn sylweddol, gan sicrhau bod disgyblion yn barod i ddychwelyd i'r ysgol, ac atal y dirywiad mewn llythrennedd darllen sy'n medru digwydd dros yr haf.

Ymgyfoethogi Diwylliannol a Chreadigol

Mae llyfrgelloedd hefyd yn hanfodol ar gyfer ymgyfoethogi diwylliannol a chreadigol. Yn aml, maent yn darparu profiadau diwylliannol cyntaf babanod drwy Amseroedd Rhigwm Babanod ac yn galluogi cymunedau lleol i fwynhau profiadau diwylliannol am ddim, fel ymweliadau awduron, grwpiau darllen a pherfformiadau.

monmouthshire
sir fynwy

Cryfhau Partneriaethau

Meithrin partneriaethau ag ysgolion lleol, gyda'r nod o gynyddu cydweithio o 50% i 90%. Gyda phwyslais y cwricwlwm ar ddarllen er mwyn pleser, bydd y partneriaethau hyn yn cefnogi ein nodau ymhellach.

Dyfodol Ffyniannus

Drwy fynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn, bydd llyfrgelloedd Sir Fynwy yn dod yn fannau bywiog a chynhwysol sy'n diwallu anghenion esblygol pob preswylydd, gan feithrin cymdeithas lythrennog, hyderus a chyfoethog yn ddiwylliannol. Ymunwch â ni ar y daith gyffrous hon wrth i ni drawsnewid ein llyfrgelloedd yn ganolfannau dysgu, creadigrwydd ac ymgysylltu cymunedol.

Amcanion Strategol

1. Tyfu ac Amrywio Aelodaeth y Llyfrgell

25% → 2030

20% → 2030

Uchelgais: Cynyddu aelodaeth llyfrgell 25% i blant iau a 20% i oedolion erbyn 2030.

Camau Gweithredu:

Lansio ymgyrchoedd aelodaeth wedi'u targedu sy'n canolbwyntio ar deuluoedd, oedolion ifanc, pobl hŷn, a grwpiau dan gynrychiolaeth.

Lleihau rhwystrau i aelodaeth drwy symleiddio'r broses ymuno a hyrwyddo llyfrgelloedd drwy rwydweithiau cymunedol ac ar-lein.

Cynnig cymhellion, fel gwobrau llyfrau (adeiladu ar y Model Her Ddarllen yr Haf) a digwyddiadau, i annog aelodau newydd.

monmouthshire
sir fynwy

2. Cryfhau Dysgu a Sgiliau Digidol

Uchelgais: Ehangu a moderneiddio'r gwasanaethau digidol i ddiwallu anghenion yr holl drigolion

Camau Gweithredu:

Cynnal 25 o weithdai ar sgiliau digidol, seiberddiogelwch, deallusrwydd artiffisial, a gwasanaethau ar-lein i gefnogi'r Strategaeth Ddigidol i Gymru mewn cydweithrediad â phartneriaid a rhanddeiliaid Addysg Gymunedol Sir Fynwy a'r Trydydd Sector erbyn 2026-27.

Blaenoriaethu hygyrchedd a chynhwysiant ym mhob gwasanaeth digidol, gan sicrhau bod oedolion hŷn a'r rhai ag anghenion ychwanegol yn cael eu cefnogi

3. Hyrwyddo Cynhwysiant a Llesiant Cymunedol

Uchelgais: Mynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd wrth feithrin cysylltiadau rhyng-genhedlaethol ac arferion cynaliadwy drwy allgymorth mewn 10 Cymuned erbyn 2027.

Camau Gweithredu:

Cynnig mannau diogel a chroesawgar ar gyfer gweithgareddau cymunedol a chysylltiadau cymdeithasol.

Cyflwyno rhaglenni rhyng-genhedlaethol, fel adrodd straeon a mentora sgiliau digidol.

Adnewyddu cynhwysfawr o'n Casgliad Darllen er Lles.

Hyrwyddo mentrau gwyrdd, fel grwpiau darllen â thema eco a chynlluniau benthyca ar gyfer adnoddau byw cynaliadwy.

Cynnal digwyddiadau a gweithgareddau sy'n dathlu amrywiaeth ddiwylliannol a balchder LHDTC+.

monmouthshire
sir fynwy

4. Cryfhau’r Iaith Gymreig a’i Hunaniaeth Ddiwylliannol

Uchelgais: Sicrhau bod Llyfrgelloedd Sir Fynwy yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r iaith Gymraeg, yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Camau Gweithredu:

Ehangu casgliadau Cymraeg, gan gynnwys llyfrau, llyfrau sain ac adnoddau digidol ar gyfer pob oed.

Datblygu gwasanaethau dwyieithog ar draws pob lleoliad llyfrgell, gan sicrhau bod staff neu adnoddau sy'n siarad Cymraeg ar gael yn rhwydd.

Cynnal grwpiau darllen, sesiynau adrodd straeon a digwyddiadau diwylliannol Cymraeg sy'n dathlu treftadaeth Cymru.

Gweithio gydag ysgolion a phartneriaid cymunedol i hyrwyddo llythrennedd ac ymgysylltiad yn y Gymraeg.

5. Gwella Mynediad Digidol ac Arloesedd

2030

Uchelgais: Ehangu a moderneiddio'r gwasanaethau digidol i ddiwallu anghenion yr holl drigolion drwy lansio 3 gwasanaeth digidol newydd erbyn 2030.

Camau Gweithredu:

Lansio Cymhwysiad Cwsmeriaid Spydus sy'n cynnig mynediad at gatalogau, e-adnoddau, a bwcio digwyddiadau.

Ehangu argaeledd e-lyfrau, llyfrau llafar, ac adnoddau dysgu ar-lein, trwy gynnig benthyca dyfeisiau.

Cydweithio â rhanddeiliaid mewnol ac allanol i gyflawni mentrau sy'n mynd i'r afael ag unigrwydd a gwella lles meddyliol.

monmouthshire
sir fynwy

Bydd y strategaeth hon yn gyson â Fframweithiau Strategol allweddol presennol

1. Bydd ein Strategaeth Llyfrgelloedd yn cyd-fynd â themâu ac amcanion allweddol Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol Cyngor Sir Fynwy:

- Lle teg i fyw lle mae effeithiau anghydraddoldeb a thlodi wedi'u lleihau.
- Lle gwyrdd i fyw a gweithio, gyda llai o allyriadau carbon, a gwneud cyfraniad cadarnhaol at fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur.
- Lle ffyniannus ac uchelgeisiol, lle mae canol trefi bywiog, lle gall busnesau dyfu a datblygu
- Lle diogel i fyw lle mae gan bobl gartref a chymuned lle maent yn teimlo'n ddiogel
- Lle cysylltiedig lle mae pobl yn teimlo'n rhan o gymuned ac yn cael eu gwerthfawrogi.
- Lle dysgu lle mae gan bawb y cyfle i gyrraedd eu potensial.

2. Strategaethau Llywodraeth Cymru:

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015:** Bydd llyfrgelloedd yn cefnogi pob un o'r saith nod llesiant, gan flaenoriaethu bywiogrwydd diwylliannol, cydraddoldeb a chydlyniant cymunedol.
- **Strategaeth Ddigidol i Gymru:** Bydd gwasanaethau'n gwella cynhwysiant digidol, gan sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl yn yr oes ddigidol.
- **Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru:** Bydd llyfrgelloedd yn meithrin mannau cynhwysol sy'n herio gwahaniaethu ac yn dathlu amrywiaeth.
- **Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru:** Bydd rhaglenni ac adnoddau'n adlewyrchu profiadau a chyfraniadau cymunedau LHDTC+.
- **Cymru sy'n Oed-gyfeillgar:** Bydd llyfrgelloedd yn cefnogi heneiddio iach trwy hyrwyddo dysgu gydol oes, cysylltiad cymdeithasol a mynediad at wybodaeth.
- **Strategaeth Unigrwydd ac Ynysigrwydd Cymdeithasol:** Bydd llyfrgelloedd yn gweithredu fel canolfannau cymunedol allweddol i frwydro yn erbyn unigedd a meithrin cynhwysiant cymdeithasol.

monmouthshire
sir fynwy

Yr hyn sydd i'w gyflawni

- Cyflawni cynnydd o 25% mewn aelodaeth iau a chynnydd o 20% mewn aelodaeth oedolion erbyn 2030.
- Lansio tri gwasanaeth digidol newydd, gan gynnwys Ap Llyfrgell Spydus (2025) ac e-adnoddau estynedig erbyn 2030
- Sefydlu partneriaethau cynaliadwy gyda 70% o ysgolion yn Sir Fynwy erbyn 2030
- Cyflwyno 25 o weithdai ar y cyd yn flynyddol gyda phartneriaid addysg gymunedol erbyn blwyddyn academaidd 2026-27.
- Cynnal digwyddiadau chwarterol yn dathlu amrywiaeth a chynhwysiant, wedi'u halinio â chynlluniau gweithredu cenedlaethol i'w rhoi ar waith erbyn 2026.
- Gweithredu rhaglenni allgymorth i fynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd mewn o leiaf 10 lleoliad cymunedol erbyn 2027.

Monitro a Gwerthuso

Bydd cynnydd yn cael ei asesu drwy:

- Adroddiadau cynnydd chwarterol wedi'u halinio ag amcanion strategol o fewn ein cynlluniau darparu gwasanaethau mewnol
- Asesiadau effaith blynyddol yn mesur aliniad â nodau Llywodraeth Cymru a blaenoriaethau corfforaethol Sir Fynwy
- Arolygon ac adborth gan ddefnyddwyr, ysgolion a phartneriaid cymunedol, wedi'u datblygu a'u llunio gan ofynion fframwaith adrodd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru
- Cydymffurfiaeth â Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.

Casgliadau

Mae'r Strategaeth hon yn cadarnhau ymrwymiad Sir Fynwy i ddarparu gwasanaethau llyfrgell cynhwysol, arloesol ac effeithiol. Drwy gyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, ein nod yw ymrymuso unigolion, cryfhau cymunedau a chreu dyfodol gwydn a theg i bawb.

monmouthshire
sir fynwy

Atodiad

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru:
https://www.gov.wales/measuring-public-library-service-our-standards

Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol Cyngor Sir Fynwy 2022-2028:
https://www.monmouthshire.gov.uk/app/uploads/2023/07/MMCCommCorpPlan_Final_EN.pdf

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015:
https://futuregenerations.wales/discover/about-future-generations-commissioner/future-generations-act-2015/

Strategaeth Ddigidol i Gymru:
https://www.gov.wales/digital-strategy-overview

Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol:
https://www.gov.wales/anti-racist-wales-action-plan-2024-update-html

Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru:
https://www.gov.wales/lgbtq-action-plan-wales

Cymru Oed-gyfeillgar:
https://www.gov.wales/age-friendly-wales-our-strategy-ageing-society

Strategaeth Unigrwydd ac Ynysigrwydd Cymdeithasol:
https://www.gov.wales/loneliness-and-social-isolation-connected-communities